Mae'r ddelwedd thematig yn dangos safle Maes Addysg MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn pedair ward ardal gymunedol y Canol.



Gweithgarwch Economaidd

Roedd y data Cyfrifiad diweddaraf yn 2011²⁴ yn dangos bod gweithgarwch economaidd preswylwyr cymuned y Canol yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward gan amrywio o 58.5% ym Mhlgwenlli; 68.5% yn Allt-yr-ynn; 71.5% yn Stow Hill; a 72.1% yn Shaftesbury; o gymharu â 67.5% ar gyfer Casnewydd a 65.8% ar draws Cymru. Dim ond preswylwyr Pilgwenlli oedd yn llai economaidd weithgar o gymharu â chyfartaledd Casnewydd, tra bod Shaftesbury, Stow Hill ac Allt-yr-ynn yn fwy economaidd weithgar.

Roedd gan Allt-yr-ynn (9.2%) a Stow Hill (6.7%) ganran uwch o breswylwyr sy'n hunangyflogedig o gymharu â Chasnewydd (6.6%), tra bod gan Pilgwenlli (4.9%) a Shaftesbury (5.2%) ganran is.

Gweithgarwch Economaidd							
Cyfrifiad 2011	Pob Preswlydd Arferol (16-74 oed)	Economaidd Weithgar		Yn gyflogedig (rhan amser)		Yn gyflogedig (llawn amser)	
	Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	6,284	4,303	68.5	842	13.4	2,414	38.4
Stow Hill	3,689	2,639	71.5	433	11.7	1,497	40.6
Pilgwenlli	5,254	3,072	58.5	627	11.9	1,377	26.2
Shaftesbury	3,796	2,738	72.1	610	16.1	1,566	41.3
Casnewydd	105,141	71,011	67.5	15,531	14.8	39,177	37.3
Cymru	2,245,166	1,476,735	65.8	313,022	13.9	799,348	35.6

Cyfrifiad 2011	Hunangyflogedig		Yn Ddi-waith		Myfyriwr Llawn Amser	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	577	9.2	299	4.8	171	2.7
Stow Hill	248	6.7	263	7.1	198	5.4
Pilgwenlli	260	4.9	386	7.3	422	8.0
Shaftesbury	196	5.2	252	6.6	114	3.0
Casnewydd	6,894	6.6	5,616	5.3	3,793	3.6
Cymru	194,029	8.6	96,689	4.3	73,647	3.3

²⁴ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Anweithgarwch Economaidd,

Roedd y data Cyfrifiad diweddaraf yn 2011²⁵ yn dangos bod anweithgarwch economaidd preswylwyr cymuned y Canol yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward gan amrywio o 27.9% yn Shaftesbury; 28.5% yn Stow Hill; 31.5% ym Mhlgwenlli; a 41.5% ym Mhlgwenlli; o gymharu â 32.5% ar gyfer Casnewydd a 34.2% ar draws Cymru. Dim ond preswylwyr Pilgwenlli oedd yn fwy economaidd anweithgar o gymharu â chyfartaledd Casnewydd, tra bod Shaftesbury, Stow Hill ac Allt-yr-ynn yn llai economaidd anweithgar.

Roedd gan Allt-yr-ynn ganran uwch o breswylwyr a oedd wedi ymddeol (16.4%) o gymharu â Chasnewydd (14.6%) a Chymru (16.1%), tra bod gan Pilgwenlli (8.1%), Stow Hill (9.7%) a Shaftesbury (12.4%) ganran is. Roedd gan Allt-yr-ynn (9.1%) a Stow Hill (6.0%) ganran uwch o breswylwyr sydd 'â salwch hirdymor neu anabled' o gymharu â Chasnewydd (5.7%), tra bod gan Allt-yr-ynn (5.3%) a Shaftesbury (5.3%) ganran is.

Anweithgarwch Economaidd							
Cyfrifiad 2011	Pob Preswlydd Arferol (16-74 oed)	Economaidd Anweithgar		Wedi ymddeol		Myfyrwyr	
	Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	6,284	1,981	31.5	1,029	16.4	273	4.3
Stow Hill	3,689	1,050	28.5	357	9.7	251	6.8
Pilgwenlli	5,254	2,182	41.5	427	8.1	628	12.0
Shaftesbury	3,796	1,058	27.9	472	12.4	156	4.1
Casnewydd	105,141	34,130	32.5	15,389	14.6	5,591	5.3
Cymru	2,245,166	768,431	34.2	361,501	16.1	133,880	6.0

Cyfrifiad 2011	Gofalu am y cartref neu'r teulu		Salwch neu anabled' hirdymor		Arall	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	224	3.6	333	5.3	122	1.9
Stow Hill	116	3.1	221	6.0	105	2.8
Pilgwenlli	381	7.3	476	9.1	270	5.1
Shaftesbury	148	3.9	200	5.3	82	2.2
Casnewydd	4,642	4.4	6,039	5.7	2,469	2.3
Cymru	86,396	3.8	140,760	6.3	45,894	2.0

²⁵ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)


Lwfans Ceisio Gwaith


Ar draws y pedair ward yng nghymuned y Canol, mae'r ACEHI sydd â'r nifer uchaf o hawlwyd Lwfans Ceisio Gwaith rhwng mis Chwefror 2020 a mis Chwefror 2021 ym Mhigwenlli 3; Pilgwenlli 4; Allt-yr-ynn 2; a Shaftesbury 1. Mae hyn yn cymharu â'r niferoedd isaf a geir yn Allt-yr-ynn 1; Shaftesbury 3; Allt-yr-ynn 3; Allt-yr-ynn 6; a Shaftesbury 4.

Dim ond Stow Hill a Philgwenlli sy'n dangos hawlwyd 17-24 oed rhwng mis Chwefror 2020 a mis Chwefror 2021.

Cyfanswm yr Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith rhwng mis Chwefror 2020 a mis Chwefror 2021		
Adran Gwaith a Phensiynau ²⁶	Pob Oedran	17-24 oed
Allt-yr-ynn 1	0	
Allt-yr-ynn 2	52	
Allt-yr-ynn 3	16	
Allt-yr-ynn 4	28	
Allt-yr-ynn 5	26	
Allt-yr-ynn 6	17	
Allt-yr-ynn	139	0
Stow Hill 1	37	
Stow Hill 2	32	
Stow Hill 3	39	
Stow Hill	108	12
Pilgwenlli 1	28	
Pilgwenlli 2	30	
Pilgwenlli 3	53	
Pilgwenlli 4	52	
Pilgwenlli	163	11
Shaftesbury 1	42	
Shaftesbury 2	25	
Shaftesbury 3	13	
Shaftesbury 4	17	
Shaftesbury	97	0
Casnewydd	2,535	90

²⁶ Adran Gwaith a Phensiynau





Cymwysterau Oedolion


Roedd y data Cyfrifiad diweddaraf yn 2011²⁷ yn dangos bod oedolion heb gymwysterau yng nghymuned y Canol yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward gan amrywio o Allt-yr-ynn (19.1%); Stow Hill (22.4%); Shaftesbury (28.1%); a Pilgwenlli (35.2%); o gymharu â 27.0% ar gyfer Casnewydd.

Ar gyfer cymwysterau lefel uwch, roedd hyn yn amrywio o Bilgwenlli (14.0%); Shaftesbury (17.9%); Stow Hill (30.8%); ac Allt-yr-ynn (37.5%); o gymharu â 23.4% ar gyfer Casnewydd.

Mae gan Allt-yr-ynn a Stow Hill gyfran is o oedolion heb unrhyw gymwysterau a chyfran uwch â chymwysterau lefel uwch o gymharu â chyfartaledd Casnewydd. Tra bod gan Pilgwenlli a Shaftesbury gyfran uwch o oedolion heb unrhyw gymwysterau a chyfran is â chymwysterau lefel uwch o gymharu â chyfartaledd Casnewydd.

Cymwysterau								
Cyfrifiad 2011	Pob preswlydd arferol (16 oed a hŷn)		Dim Cymwysterau		Cymwysterau Lefel 1		Cymwysterau Lefel 2	
	Nifer		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	7,207		1,376	19.1	802	11.1	1,029	14.3
Stow Hill	3,999		897	22.4	437	10.9	572	14.3
Pilgwenlli	5,655		1,988	35.2	763	13.5	718	12.7
Shaftesbury	4,203		1,179	28.1	666	15.8	681	16.2
Casnewydd	116,348		31,454	27.0	16,399	14.1	17,834	15.3
Cymru	2,507,160		650,517	25.9	332,943	13.3	393,819	15.7

Cyfrifiad 2011	Prentisiaeth		Cymwysterau Lefel 3		Cymwysterau Lefel 4		Cymwysterau Eraill	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	226	3.1	777	10.8	2,700	37.5	297	4.1
Stow Hill	91	2.3	464	11.6	1,230	30.8	308	7.7
Pilgwenlli	113	2.0	827	14.6	792	14.0	454	8.0
Shaftesbury	198	4.7	525	12.5	752	17.9	202	4.8
Casnewydd	4,685	4.0	13,203	11.3	27,202	23.4	5,571	4.8
Cymru	98,843	3.9	308,171	12.3	614,116	24.5	108,751	4.3



²⁷ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Beth rydym ni'n ei wybod am les economaidd ein plant a'n pobl ifanc?

Plant sy'n Byw mewn Teuluoedd Incwm Isel


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r nifer uchaf o blant mewn teuluoedd incwm isel absoliwt yn 2018-19 ym Mhilgwenlli 3 (234); Pilgwenlli 1 (199); a Philgwenlli 4 (170). Mae hyn yn cymharu â'r niferoedd isaf a geir yn Allt-yr-ynn 5 (23); Allt-yr-ynn 1 (25); Allt-yr-ynn 3 (31); Shaftesbury 3 (34); ac Allt-yr-ynn 4 (36).

Ar draws cymuned y Canol ar gyfer nifer y plant mewn teuluoedd incwm isel absoliwt, roedd hyn yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward yn amrywio o Bilgwenlli (759); Stow Hill (277); Allt-yr-ynn (240); a Shaftesbury (212).

Ers 2014-15 mae nifer y plant mewn teuluoedd incwm isel absoliwt wedi gostwng ar draws pob un o'i phedair ward, gyda'r gostyngiad mwyaf ym Mhilgwenlli (27.09%) yna Allt-yr-ynn (12.73%); Stow Hill (6.73%); a Shaftesbury (1.85%); sy'n cymharu â gostyngiad o 20.20% ar gyfer Casnewydd a 23.44% ar gyfer Cymru.

Plant mewn Teuluoedd Incwm Isel Absoliwt					
Adran Gwaith a Phensiynau ²⁸	2014-15 Nifer	2015-16 Nifer	2016-17 Nifer	2017-18 Nifer	2018-19 Nifer
Allt-yr-ynn 1	25	27	29	20	25
Allt-yr-ynn 2	70	83	88	58	70
Allt-yr-ynn 3	15	20	18	15	31
Allt-yr-ynn 4	71	54	46	46	36
Allt-yr-ynn 5	33	36	28	29	23
Allt-yr-ynn 6	61	72	58	42	55
Allt-yr-ynn	275	292	267	210	240
Stow Hill 1	91	94	78	88	78
Stow Hill 2	64	49	44	55	64
Stow Hill 3	142	155	140	163	135
Stow Hill	297	298	262	306	277
Pilgwenlli 1	263	246	205	258	199
Pilgwenlli 2	227	175	161	139	156
Pilgwenlli 3	336	302	265	260	234
Pilgwenlli 4	215	207	186	175	170
Pilgwenlli	1,041	930	817	832	759
Shaftesbury 1	72	80	64	53	72
Shaftesbury 2	53	42	42	45	65
Shaftesbury 3	42	49	52	34	34
Shaftesbury 4	49	45	36	59	41
Shaftesbury	216	216	194	191	212
Casnewydd	8,021	7,327	6,674	6,494	6,401
Cymru	130,279	118,031	105,728	103,568	99,736

²⁸ Adran Gwaith a Phensiynau



Prydau Ysgol Am Ddim


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2021 yn Allt-yr-ynn 2 (40.8%); Pilgwenlli 1 (38.1%); Pilgwenlli 3 (35.1%); Shaftesbury 1 (33.6%); a Philgwenlli 4 (33.0%). Mae hyn yn cymharu â'r ganran isaf o ddisgyblion sy'n gymwys i'w gweld yn Allt-yr-ynn 5 (2.6%); Allt-yr-ynn 1 (4.0%); Allt-yr-ynn 3 (4.8%); Allt-yr-ynn 6 (5.8%); a Shaftesbury 3 (8.2%).

Ar draws cymuned y Canol roedd y ganran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2021 yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward o Allt-yr-ynn (13.6%); Shaftesbury (21.9%); Stow Hill (22.6%); a Philgwenlli (31.0%); o gymharu â 21.0% ar draws Casnewydd.

Ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2021, mae gan Allt-yr-ynn ganran is o gymharu â chyfartaledd Casnewydd, gyda Philgwenlli, Stow Hill a Shaftesbury yn dangos canran uwch.

Prydau Ysgol Am Ddim yn 2021			
CYBLD 2021 ²⁹	Cyfanswm y Disgyblion	Disgyblion sy'n Gymwys i Gael Prydau Ysgol Am Ddim	
		Nifer	%
Allt-yr-ynn 1	225	9	4.0
Allt-yr-ynn 2	287	117	40.8
Allt-yr-ynn 3	208	10	4.8
Allt-yr-ynn 4	172	21	12.2
Allt-yr-ynn 5	193	5	2.6
Allt-yr-ynn 6	191	11	5.8
Allt-yr-ynn	1,276	173	13.6
Stow Hill 1	254	72	28.3
Stow Hill 2	182	23	12.6
Stow Hill 3	259	62	23.9
Stow Hill	695	157	22.6
Pilgwenlli 1	472	180	38.1
Pilgwenlli 2	520	101	19.4
Pilgwenlli 3	519	182	35.1
Pilgwenlli 4	273	90	33.0
Pilgwenlli	1,784	553	31.0
Shaftesbury 1	217	73	33.6
Shaftesbury 2	190	51	26.8
Shaftesbury 3	194	16	8.2
Shaftesbury 4	193	34	17.6
Shaftesbury	794	174	21.9
Casnewydd	26,363	5,532	21.0

²⁹ Cyfrifiad Arolwg Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021




Pa mor fedrus yw ein plant a'n pobl ifanc?

Gall cael addysg dda chwarae rhan hanfodol wrth alluogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, cyflawni eu potensial a gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi.

Mae'r graff isod yn dangos y lefelau cyflawniad a gafwyd ymhlith disgyblion ysgol ar draws y pedair ward yng nghymuned y Canol yn y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol 2 i 4.

Cyflawniad Lefel Disgyblion yn 2019 – Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig

CYBLD 2019 ³⁰	Cyfnod Sylfaen		Cyfnod Allweddol 2		Cyfnod Allweddol 3		Cyfnod Allweddol 4	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	103	92.0	92	93.9	79	90.8	53	74.6
Stow Hill	44	93.6	46	88.5	45	91.8	29	67.4
Pilgwenlli	84	75.0	99	78.6	95	80.5	46	43.8
Shaftesbury	56	84.8	54	98.2	40	87.0	30	58.8
Casnewydd	1,640	85.3	1,752	89.3	1,470	88.3	985	63.5



³⁰ Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019

Cyfnod Sylfaen


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2019 yn Allt-yr-ynn 1, Allt-yr-ynn 3, Allt-yr-ynn-4 a Shaftesbury 3 ar gyflawniad o 100%. Mae hyn yn cymharu â'r ganran isaf o ddisgyblion i'w gweld ym Mhigwenlli 1 (53.1%).

Ar draws cymuned y Canol roedd canran y disgyblion a gyflawnodd eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2019 yn amrywio ar draws ei phedair ward o Stow Hill (93.6%); Allt-yr-ynn (92.0%); Shaftesbury (84.8%); a Pilgwenlli (75.0%).

Roedd gan Allt-yr-ynn a Stow Hill ganran uwch o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (85.3%), tra bod gan Pilgwenlli a Shaftesbury ganran is.

Cyflawniad Lefel Disgyblion yn 2019 – Y Cyfnod Sylfaen			
CYBLD 2019 ³¹	Cyfanswm y Disgyblion	yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig	
		Nifer	%
Allt-yr-ynn 1	20	20	100.0
Allt-yr-ynn 2	30	24	80.0
Allt-yr-ynn 3	17	17	100.0
Allt-yr-ynn 4	17	17	100.0
Allt-yr-ynn 5	12	11	91.7
Allt-yr-ynn 6	16	14	87.5
Allt-yr-ynn	112	103	92.0
Stow Hill 1	17	16	94.1
Stow Hill 2	13	12	92.3
Stow Hill 3	17	16	94.1
Stow Hill	47	44	93.6
Pilgwenlli 1	32	17	53.1
Pilgwenlli 2	37	36	97.3
Pilgwenlli 3	31	23	74.2
Pilgwenlli 4	12	8	66.7
Pilgwenlli	112	84	75.0
Shaftesbury 1	20	18	90.0
Shaftesbury 2	12	8	66.7
Shaftesbury 3	7	7	100.0
Shaftesbury 4	27	23	85.2
Shaftesbury	66	56	84.8
Casnewydd	1,922	1,640	85.3

³¹ Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019



Cyfnod Allweddol 2 (11 oed)


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2019 yn Allt-yr-ynn 1, Allt-yr-ynn 3, Allt-yr-ynn 5; Stow Hill 2; Shaftesbury 1; Shaftesbury 2; a Shaftesbury 4 ar gyflawniad o 100%. Mae hyn yn cymharu â'r ganran isaf o ddisgyblion i'w gweld yn Allt-yr-ynn 6 (72.7%); Pilgwenlli 3 (73.9%); a Philgwenlli 1 (75.8%).

Ar draws cymuned y Canol roedd canran y disgyblion a gyflawnodd eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen 2 yn 2019 yn amrywio ar draws ei phedair ward o Shaftesbury (98.2%); Allt-yr-ynn (93.9%); Stow Hill (88.5%); a Philgwenlli (78.6%).

Roedd gan Bilgwenlli a Stow Hill ganran is o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (83.1%), tra bod gan Shaftesbury, Allt-yr-ynn a Stow Hill ganran is.

Cyflawniad ar Lefel Disgyblion yn 2019 – Cyfnod Allweddol 2			
CYBLD 2019 ³²	Cyfanswm y Disgyblion	yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig	
		Nifer	%
Allt-yr-ynn 1	12	12	100.0
Allt-yr-ynn 2	25	23	92.0
Allt-yr-ynn 3	20	20	100.0
Allt-yr-ynn 4	15	14	93.3
Allt-yr-ynn 5	15	15	100.0
Allt-yr-ynn 6	11	8	72.7
Allt-yr-ynn	98	92	93.9
Stow Hill 1	23	20	87.0
Stow Hill 2	8	8	100.0
Stow Hill 3	21	18	85.7
Stow Hill	52	46	88.5
Pilgwenlli 1	33	25	75.8
Pilgwenlli 2	26	22	84.6
Pilgwenlli 3	46	34	73.9
Pilgwenlli 4	21	18	85.7
Pilgwenlli	126	99	78.6
Shaftesbury 1	7	7	100.0
Shaftesbury 2	17	17	100.0
Shaftesbury 3	19	18	94.7
Shaftesbury 4	12	12	100.0
Shaftesbury	55	54	98.2
Casnewydd	1,962	1,752	89.3

³² Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019



Cyfnod Allweddol 3 (14 oed)


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2019 yn Allt-yr-ynn 4; Shaftesbury 3; a Shaftesbury 4 ar gyflawniad o 100%. Mae hyn yn cymharu â'r ganran isaf o ddisgyblion i'w gweld yn Shaftesbury 1 (60.0%) a Philgwenlli 1 (70.4%).

Ar draws cymuned y Canol roedd canran y disgyblion a gyflawnodd eu lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen 3 yn 2019 yn amrywio ar draws ei phedair ward o Stow Hill (91.8%); Allt-yr-ynn (90.8%); Shaftesbury (87.0%); a Philgwenlli (80.5%).

Roedd gan Stow Hill ac Allt-yr-ynn ganran uwch o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (88.3%), tra bod gan Pilgwenlli a Shaftesbury ganran is.

Cyflawniad ar Lefel Disgyblion yn 2019 – Cyfnod Allweddol 3			
CYBLD 2019 ³³	Cyfanswm y Disgyblion	yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig	
		Nifer	%
Allt-yr-ynn 1	14	13	92.9
Allt-yr-ynn 2	19	17	89.5
Allt-yr-ynn 3	13	11	84.6
Allt-yr-ynn 4	17	17	100.0
Allt-yr-ynn 5	13	11	84.6
Allt-yr-ynn 6	11	10	90.9
Allt-yr-ynn	87	79	90.8
Stow Hill 1	13	12	92.3
Stow Hill 2	16	15	93.8
Stow Hill 3	20	18	90.0
Stow Hill	49	45	91.8
Pilgwenlli 1	27	19	70.4
Pilgwenlli 2	35	28	80.0
Pilgwenlli 3	38	31	81.6
Pilgwenlli 4	18	17	94.4
Pilgwenlli	118	95	80.5
Shaftesbury 1	10	6	60.0
Shaftesbury 2	14	12	85.7
Shaftesbury 3	11	11	100.0
Shaftesbury 4	11	11	100.0
Shaftesbury	46	40	87.0
Casnewydd	1,664	1,470	88.3

³³ Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019



Cyfnod Allweddol 4 (Trothwy Lefel 2)


Yng nghymuned y Canol roedd yr ardaloedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni'r Trothwy Lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn 2019 yn Allt-yr-ynn 5 ar gyflawniad o 100%. Mae hyn yn cymharu â'r ganran isaf o ddisgyblion i'w gweld ym Mhigwenlli 3 (34.3%); Pilgwenlli 1 (45.8%); Pilgwenlli 2 (46.2%); a Shaftesbury 4 (46.7%).

Ar draws cymuned y Canol roedd canran y disgyblion yn cyflawni Trothwy Lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen 4 yn 2019 yn amrywio ar draws ei phedair ward o Allt-yr-ynn (74.6%); Stow Hill (67.4%); Shaftesbury (58.8%); a Pilgwenlli (43.8%).

Roedd gan Allt-yr-ynn a Stow Hill ganran uwch o ddisgyblion yn cyflawni eu lefel ddisgwyliedig o gymharu â chyfartaledd Casnewydd (63.5%), tra bod gan Pilgwenlli a Shaftesbury ganran is.

Cyflawniad ar Lefel Disgyblion yn 2019 – Cyfnod Allweddol 4			
CYBLD 2019 ³⁴	Cyfanswm y Disgyblion	yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig	
		Nifer	%
Allt-yr-ynn 1	22	18	81.8
Allt-yr-ynn 2	15	9	60.0
Allt-yr-ynn 3	6	5	83.3
Allt-yr-ynn 4	8	5	62.5
Allt-yr-ynn 5	8	8	100.0
Allt-yr-ynn 6	12	8	66.7
Allt-yr-ynn	71	53	74.6
Stow Hill 1	15	11	73.3
Stow Hill 2	13	10	76.9
Stow Hill 3	15	8	53.3
Stow Hill	43	29	67.4
Pilgwenlli 1	24	11	45.8
Pilgwenlli 2	26	12	46.2
Pilgwenlli 3	35	12	34.3
Pilgwenlli 4	20	11	55.0
Pilgwenlli	105	46	43.8
Shaftesbury 1	9	5	55.6
Shaftesbury 2	12	6	50.0
Shaftesbury 3	15	12	80.0
Shaftesbury 4	15	7	46.7
Shaftesbury	51	30	58.8
Casnewydd	1,550	985	63.5

³⁴ Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019



Adran 4: Lles Cymdeithasol

Mae lles cymdeithasol yn cwmpasu meysydd fel iechyd, tai a chymunedau diogel. Gallai gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol wrth asesu lles cymdeithasol ardal gynnwys mesurau sy'n ymwneud â lles corfforol a meddyliol, ymddygiadau iechyd, disgwyliad oes, ansawdd ac argaeledd tai, diogelwch cymunedol a byw heb ofni troseddu.

Pa mor iach yw ein cymuned?

MALIC 2019 – Maes Iechyd

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru³⁵ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpeisir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol. Mae'r dangosyddion (sy'n ymwneud â'r boblogaeth gyfan) o fewn maes iechyd MALIC wedi'u safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw i addasu ar gyfer yr achosion disgwyliedig o glefydau o fewn y boblogaeth sylfaenol. Mae hyn yn galluogi'r Mynegai i nodi ardaloedd lle mae amddifadedd iechyd yn bodoli y tu hwnt i effaith oedran a rhyw. Mae'r maes iechyd yn cynnwys saith dangosydd:

- Cyflyrau cronig wedi'u cofnodi gan feddygon teulu
- Salwch cyfyngus hirdymor
- Marwolaethau cynamserol
- Cyflyrau iechyd meddwl wedi'u cofnodi gan feddygon teulu
- Achosion o ganser
- Pwysau geni isel
- Plant 4-5 oed sy'n ordew

Diagnosis wedi'i gofnodi gan feddygon teulu o gyflwr cronig (wedi'i safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw)

Roedd hwn yn ddangosydd newydd yn 2019 ac mae'n seiliedig ar gyfrifiadau o bobl â diagnosis am gyflyrau o restr ddiffiniedig o gofrestrau ac is-ddangosyddion clefydau a gafwyd gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru (ar 31 Mawrth 2019). Mae'n mesur nifer y bobl sydd â diagnosis cyfredol o un neu fwy o'r cyflyrau a restrir isod:

- Clefyd Coronaidd y Galon
- Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- Strôc ac Ymosodiad Isgemig Dros Dro
- Clefyd y Rhydwell Ymylol
- Clefyd Cronig yr Arennau
- Diabetes Mellitus (math 1 ar gyfer pob oedran, math 2 a mathau eraill ar gyfer pobl 17+ oed)
- Epilepsi

Dilëwyd dyblygiadau o'r cyfrifiadau hyn fel nad oedd cleifion â mwy nag un cyflwr yn cael eu cyfrif ddwywaith. Roedd data ar lefel cleifion wedi'u cyfuno i ardaloedd bach (ACEHI), yn ôl cyfeiriadau cleifion, fel bod nifer yr achosion yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw yn hytrach na lle maent wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu. Cyflwynir y dangosydd hwn fel cyfradd fesul 100 o bobl. Ar gyfer yr enwadur, rydym wedi defnyddio'r Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach diweddaraf sydd ar gael (canol 2018), namyn poblogaeth y carchardai (2018).

Salwch cyfyngus hirdymor (wedi'i safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw)

Mae'r dangosydd hwn yn cwmpasu unrhyw salwch, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar weithgareddau neu waith dyddiol, ac sy'n cynnwys yr holl breswylwyr arferol. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011 ac fe'i mynegir fel cyfradd fesul 100 o bobl. Defnyddiwyd yr un data ar gyfer

³⁵ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

MALIC 2019 (fel ar gyfer MALIC 2014), gan nad oedd diweddariad o'r Cyfrifiad (na ffynhonnell amgen ar lefel ardal fach) rhwng y ddau fynegai.

Cyfradd marwolaethau cynamserol – ar gyfer y rhai dan 75 oed (wedi'u safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw)

Roedd hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer MALIC 2019 ac mae'n seiliedig ar 10 mlynedd o ddata cofrestrïadau marwolaeth (cyfartaledd 2009-2018 yn 2019) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyflwynir y gyfradd marwolaethau cynamserol fel cyfradd fesul 100,000 o bobl. Gall iechyd gwael amlygu ei hun mewn disgwyliad oes is, y gellir ei nodi trwy gyfraddau marwolaeth safonedig yn ôl oedran a rhyw.

Diagnosis wedi'i gofnodi gan feddygon teulu o iechyd meddwl (wedi'i safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw)

Roedd hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer MALIC 2019 ac mae'n seiliedig ar gyfrifiadau o bobl â diagnosis am gyflyrau o restr ddiffiniedig o gofrestrau ac is-ddangosyddion clefydau a gafwyd gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru (ar 31 Mawrth 2019). Mae'n mesur nifer y bobl sydd â diagnosis cyfredol o un neu fwy o'r cyflyrau a restrir isod:

- Iselder
- Hwyliau isel (cleifion â chofnod o hwyliau isel ac ail bresgripsiwn gweithredol ar gyfer gwrth-iselydd)
- Anhwylder gorbryder (gan gynnwys anhwylderau panig)
- Dementia
- Salwch meddwl difrifol (sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol, a seicosisau eraill)

Dilëwyd dyblygiadau o'r cyfrifiadau hyn fel nad oedd cleifion â mwy nag un cyflwr yn cael eu cyfrif ddwywaith. Roedd data ar lefel cleifion wedi'u cyfuno i ardaloedd bach (ACEHI), yn ôl cyfeiriadau cleifion, fel bod nifer yr achosion yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw yn hytrach na lle maent wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu. Ar gyfer yr enwadur, rydym wedi defnyddio'r Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach diweddaraf sydd ar gael (canol 2018), namyn poblogaeth y carchardai (2018).

Achosion o ganser (wedi'u safoni'n anuniongyrchol o ran oedran a rhyw)

Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio cyfrifiadau o bob achos o ganser gan gynnwys pob malaenedd, ac eithrio canser y croen nad yw'n felanoma (data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) a data poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar ddeng mlynedd o ddata (2007-2016 ym MALIC 2019) ac mae wedi'i gyhoeddi'n rheolaidd ers 2008. Mynegir y data fel cyfradd fesul 100,000 o bobl. Nid oes modd cymharu data dangosyddion yn fanwl dros amser oherwydd bod y dechneg safoni anuniongyrchol yn cynnwys defnyddio cyfraddau wedi'u diweddarau sy'n benodol i oedran a rhyw ar gyfer Cymru wrth gyfrifo cyfraddau ar gyfer ardaloedd bach.

Pwysau geni isel

Y dangosydd hwn yw canran y genedigaethau sengl byw y mae pwysau geni yn llai na 2.5kg ar eu cyfer, ac fe'i cyfrifir fel cyfartaledd 10 mlynedd, gan ddefnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gellir cymharu'r dangosydd hwn dros amser. Ar gyfer MALIC 2019, y cyfnod cyfeirio ar gyfer y data oedd 2009 i 2018.

Plant 4-5 oed sy'n ordew

Mae'r dangosydd newydd hwn ar gyfer plant sy'n ordew yn mesur cyfran y plant oedran derbyn (y rhai 4 a 5 oed) sy'n ordew. Mae'r data hwn yn seiliedig ar y cyfartaledd dros 6 blynedd o 2012-13 i 2017-18. Darperir y data hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac fe'i cesglir trwy Raglen Mesur Plant Cymru. Cyfrifir gordewdra gan ddefnyddio'r canraddau mynegai màs corff (BMI) sy'n benodol i oedran a rhyw (sy'n cynnwys gwybodaeth am daldra) a gyfrifir gan ddefnyddio cyfeirnod twf Prydain 1990 (UK90) (o ddull a gynigiwyd gan Cole et al (1995)). Ystyrir bod plant sydd yn y 95fed canradd neu'n uwch yn ordew.

Y lefel leiaf y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi data'r CMP arni yw lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG), yn hytrach nag AGEHI. Mae hyn oherwydd pryderon ynghylch y posibilrwydd o

gamdddefnyddio data i nodi meysydd penodol lle mae'r ganran uchaf o blant gordew yn byw a'r posibilrwydd o nodi unigolion wrth archwilio niferoedd bach yn fanwl. Am y rhesymau hyn, er bod cyfraddau lefel AGEHI yn cael eu defnyddio yng nghyfrifiadau'r maes a'r Mynegai, dim ond fel rhan o setiau data dangosyddion MALIC y byddwn yn cyhoeddi gwerthoedd dangosyddion ar gyfer ACEHG ac ardaloedd lefel uwch. Defnyddiwyd cyfeiriadau cartref disgyblion i nodi'r AGEHI y mae plant yn byw ynddi yn hytrach nag AGEHI eu hysgol.

Safleoedd Iechyd 2019	Nifer yr AGEHI	% yr AGEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-191	% yr AGEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-382	% yr AGEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-573	% yr AGEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-955
Casnewydd	95	14.7	26.3	34.7	54.7
Cymru	1,909	10	20	30	50

Mae AGEHI Pilgwenlli 4, Pilgwenlli 1 a Philgwenlli 3 wedi'u rhestru yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Iechyd, tra bod Allt-yr-ynn 2 a Shaftesbury 1 wedi'u rhestru yn y 20% mwyaf difreintiedig; a Stow Hill 3 yn y 30% mwyaf difreintiedig. O gymharu roedd AGEHI Allt-yr-ynn 1 ac Allt-yr-ynn 5 yn y 10% lleiaf difreintiedig; Shaftesbury 3 a Shaftesbury 4 yn y 40% lleiaf difreintiedig; Stow Hill 3 yn y 30% mwyaf difreintiedig; a Philgwenlli 2 yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ar gyfer y maes Iechyd, mae Pilgwenlli yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gyda thair o'i phedair AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

	Safleoedd MALIC	Iechyd
Allt-yr-ynn 1	1819	1821
Allt-yr-ynn 2	187	320
Allt-yr-ynn 3	1761	1625
Allt-yr-ynn 4	838	991
Allt-yr-ynn 5	1657	1764
Allt-yr-ynn 6	459	437
Stow Hill 1	339	750
Stow Hill 2	808	738
Stow Hill 3	135	397
Pilgwenlli 1	21	37
Pilgwenlli 2	241	262
Pilgwenlli 3	88	70
Pilgwenlli 4	10	19
Shaftesbury 1	119	273
Shaftesbury 2	561	710
Shaftesbury 3	1005	1277
Shaftesbury 4	840	1169

Allwedd:

Safleoedd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru




Safleoedd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Safleoedd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos safle Maes Iechyd MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn pedair ward ardal gymunedol y Canol.




Disgwyliad Oes

Mae mesurau disgwyliad oes yn allweddol i ddeall lles ardal a'i dinasyddion. Mae disgwyliad oes adeg geni yn fesur ystadegol a ddefnyddir yn eang o'r blynyddoedd bywyd disgwylidig cyfartalog ar gyfer newydd-anedig yn seiliedig ar gyfraddau marwolaethau a welir ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae disgwyliad oes adeg geni hefyd yn fesur o farwolaethau ar draws pob oedran.

Mae disgwyliad oes³⁶ dynion yng Nghasnewydd yn 2017-19 yn 77.9 o flynyddoedd, o gymharu â 78.5 o flynyddoedd i Gymru. Mae hyn wedi gostwng yn raddol i Gasnewydd ers 2012-14 (78.1 o flynyddoedd). Mae disgwyliad oes menywod yng Nghasnewydd yn 2017-19 yn 82.3 o flynyddoedd, sydd yr un fath â Chymru. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers 2012-14 (82.4 o flynyddoedd). Mae disgwyliad oes menywod yn 4.4 mlynedd yn hirach na disgwyliad oes dynion yn 2017-19.

Mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yn parhau rhwng y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sydd â'r crynodiad uchaf o amddifadedd o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir crynodiad is o amddifadedd.



Yng Nghasnewydd mae'r bwlch mewn blynyddoedd o ran disgwyliad oes adeg geni dynion rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Casnewydd yn dal i fod yn sylweddol, ond mae wedi gostwng o 10.6 o flynyddoedd yn 2005-2009 i 9.9 mlynedd yn 2010-2014. Mae'r bwlch yng Nghymru wedi gostwng ychydig o 8.9 mlynedd i 8.8 mlynedd.

I'r gwrthwyneb, mae'r bwlch o ran blynyddoedd yn y disgwyliad oes adeg geni menywod rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Casnewydd wedi cynyddu o 5.7 mlynedd yn 2005-2009 i 7.2 mlynedd yn 2010-2014. Mae hyn bellach yr un bwlch â chyfartaledd Cymru sydd wedi cynyddu o 6.9 mlynedd i 7.2 mlynedd.

Disgwyliad Oes Iach

Mae disgwyliad oes iach yn amcan o faint o flynyddoedd y gallai person fyw mewn cyflwr 'iach'. Mae disgwyliad oes iach ymhlith dynion yng Nghasnewydd wedi cynyddu o 63.0 o flynyddoedd yn 2005-09 i 65.4 o flynyddoedd yn 2010-14. Fodd bynnag, mae'r bwlch mewn blynyddoedd rhwng ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig Casnewydd yn sylweddol, sef 21.9 o flynyddoedd yn 2005-09 gan ostwng i 18.2 o flynyddoedd yn

³⁶ [Disgwyliad Oes, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

2010-14. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru sydd wedi gostwng o 19.0 o flynyddoedd i 18.7 mlynedd yn yr un cyfnod.

Mae disgwyliad oes iach ymhlith menywod hefyd wedi cynyddu o 64.2 o flynyddoedd i 67.2 mlynedd. I'r gwrthwyneb, mae'r bwlch o ran blynnyddoedd yn nisgwyliad oes adeg geni menywod rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Casnewydd wedi cynyddu o 19.0 o flynyddoedd yn 2005-2009 i 20.1 o flynyddoedd yn 2010-2014. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru sydd wedi gostwng o 18.0 o flynyddoedd i 18.2 o flynyddoedd yn yr un cyfnod.


Statws Iechyd

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad yn 2011³⁷ yn dangos bod canran y preswylwyr yng nghymuned y Canol yr oedd eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu llawer neu ychydig oherwydd salwch hirdymor yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward yn amrywio o 19.8% yn Stow Hill; 20.6% yn Shaftesbury; 20.7% ym Mhigwenlli; a 21.2% yn Allt-yr-ynn; a oedd yn cymharu ag 20.8% yng Nghasnewydd a 22.7% yng Nghymru.

Roedd gan Allt-yr-ynn ganran uwch o breswylwyr yr oedd eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu oherwydd salwch hirdymor o gymharu â chyfartaledd Casnewydd, ac roedd gan Stow Hill, Shaftesbury a Phigwenlli ganran is.

Salwch Cyfyngus Hirdymor: Gweithgareddau o Ddydd i Ddydd

Cyfrifiad 2011	Pob Preswlydd	Wedi'u Cyfyngu Llawer		Wedi'u Cyfyngu Ychydig		Ddim wedi'u Cyfyngu	
	Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	8,782	920	10.5	945	10.8	6,917	78.8
Stow Hill	4,773	479	10.0	466	9.8	3,828	80.2
Pilgwenlli	7,318	891	12.2	626	8.6	5,801	79.3
Shaftesbury	5,135	540	10.5	518	10.1	4,077	79.4
Casnewydd	145,736	15,515	10.6	14,801	10.2	115,420	79.2
Cymru	3,063,456	364,318	11.9	331,537	10.8	2,367,601	77.3




³⁷ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Roedd y data Cyfrifiad diweddaraf yn 2011³⁸ yn dangos bod canran preswylwyr cymuned y Canol a ddisgrifiodd eu hiechyd fel gwael neu wael iawn yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward gan amrywio o 6.5% yn Allt-yr-ynn; 7.6% yn Shaftesbury; 7.9% yn Stow Hill; a 9.8% ym Mhlgwenlli; o gymharu â 7.4% yng Nghasnewydd a 7.6% yng Nghymru.

Roedd gan Allt-yr-ynn ganran is o breswylwyr a ddisgrifiodd eu hiechyd fel gwael neu wael iawn o gymharu â chyfartaledd Casnewydd; ac roedd gan Bilgwenlli, Stow Hill a Shaftesbury ganran uwch.

Iechyd Cyffredinol										
Cyfrifiad 2011	Iechyd Da iawn		Iechyd Da		Iechyd Gweddol		Iechyd Gwael		Iechyd Gwael iawn	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	4,133	47.1	2,835	32.3	1,239	14.1	433	4.9	142	1.6
Stow Hill	2,197	46.0	1,558	32.6	639	13.4	265	5.6	114	2.4
Pilgwenlli	3,170	43.3	2,365	32.3	1,065	14.6	523	7.1	195	2.7
Shaftesbury	2,194	42.7	1,802	35.1	748	14.6	295	5.7	96	1.9
Casnewydd	66,667	45.7	47,811	32.8	20,538	14.1	8,161	5.6	2,559	1.8
Cymru	1,428,697	46.6	953,363	31.1	447,789	14.6	178,222	5.8	55,385	1.8




³⁸ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Roedd y data Cyfrifiad diweddaraf yn 2011³⁹ yn dangos bod canran preswylwyr cymuned y Canol a oedd yn darparu unrhyw fath o ofal di-dâl yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward gan amrywio o 8.0% ym Mhlgwenlli; 9.1% yn Stow Hill; 10.5% yn Shaftesbury; a 12.5% yn Allt-yr-ynn; o gymharu â 11.4% yng Nghasnewydd a 12.1% yng Nghymru.

Roedd gan Allt-yr-ynn ganran uwch o breswylwyr a oedd yn darparu unrhyw fath o ofal di-dâl o gymharu â chyfartaledd Casnewydd; ac roedd gan Bilgwenlli, Stow Hill a Shaftesbury ganran is.

Pawb sy'n darparu gofal di-dâl

Cyfrifiad 2011	Dim gofal di-dâl		1-19 awr o ofal di-dâl yr wythnos		20-49 awr o ofal di-dâl yr wythnos		50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Allt-yr-ynn	7,687	87.5	702	8.0	135	1.5	258	2.9
Stow Hill	4,339	90.9	276	5.8	70	1.5	88	1.8
Pilgwenlli	6,734	92.0	294	4.0	105	1.4	185	2.5
Shaftesbury	4,598	89.5	296	5.8	99	1.9	142	2.8
Casnewydd	129,132	88.6	9,548	6.6	2,549	1.7	4,507	3.1
Cymru	2,693,226	87.9	212,436	6.9	54,046	1.8	103,748	3.4




³⁹ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Clefydau Cardiofasgwlaidd

Y cyfraddau marwolaethau diweddaraf ar gyfer clefydau cardiofasgwlaidd sydd ar gael ar gyfer y pedair ward yng nghymuned y Canol yw'r rheiny ar gyfer 2013-15 (nid oes data mwy diweddar ar gael ar hyn o bryd).

Cyfradd Marwolaethau Clefyd Cardiofasgwlaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth (wedi'i safoni yn ôl oedran) ar draws Cymuned y Canol

Gwasanaeth Gwybodeg HHS



Roedd y gyfradd marwolaethau ar gyfer clefydau cardiofasgwlaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth ar draws cymuned y Canol yn 2013-15 yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward o 475.3 ym Mhigwenlli; 292.7 yn Stow Hill; 283.6 yn Allt-yr-ynn; a 228.9 yn Shaftesbury.

Bu gostyngiad yn y cyfraddau ar draws y pedair ward rhwng 2006-08 a 2013-15.


Yn 2013-15 roedd gan Bilgwenlli gyfradd uwch na chyfartaledd Casnewydd (304.1) a Chymru (293.7); tra bod gan Shaftesbury, Allt-yr-ynn a Stow Hill gyfradd is na'r ddau.

Canser

Y cyfraddau marwolaethau diweddaraf ar gyfer cancer sydd ar gael ar gyfer y pedair ward yng nghymuned y Canol yw'r rheiny ar gyfer 2013-15 (nid oes data mwy diweddar ar gael ar hyn o bryd).

Cyfradd Marwolaethau Cancer fesul 100,000 o'r boblogaeth (wedi'i safoni yn ôl oedran) ar draws Cymuned y Canol

Gwasanaeth Gwybodeg HHS




Roedd y gyfradd marwolaethau ar gyfer cancer fesul 100,000 o'r boblogaeth ar draws cymuned y Canol yn 2013-15 yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward o 406.0 yn Shaftesbury; 389.2 ym Mhigwenlli; 364.4 yn Stow Hill; a 309.3 yn Allt-yr-ynn.

Mae cyfraddau wedi cynyddu yn Shaftesbury ac Allt-yr-ynn ers 2006-08 ond maent wedi gostwng yn Stow Hill a Pilgwenlli.

Yn 2013-15 roedd gan bob un o'r pedair ward gyfradd uwch na chyfartaledd Casnewydd (306.5) a Chymru (284.5).

Clefydau Anadlol

Y cyfraddau diweddaraf ar gyfer derbyniadau anadlol i'r ysbyty sydd ar gael ar gyfer y pedair ward yng nghymuned y Canol yw'r rheiny ar gyfer 2013-15 (nid oes data mwy diweddar ar gael ar hyn o bryd).




Roedd y gyfradd derbyniadau anadlol i'r ysbyty fesul 100,000 o'r boblogaeth ar draws cymuned y Canol yn 2013-15 yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward o 3524.1 ym Mhlgwenlly; 2355.1 yn Stow Hill; 1902.5 yn Shaftesbury; a 1440.7 yn Allt-yr-ynn.

Bu gostyngiad yn y cyfraddau ar draws y pedair ward rhwng 2006-08 a 2013-15.

Yn 2013-15 roedd gan Allt-yr-ynn gyfradd is na chyfartaledd Casnewydd (1,771.4) a Chymru (1464.8); tra bod gan Bilgwenlly, Stow Hill a Shaftesbury gyfradd uwch na'r ddau.

Alcohol

Y cyfraddau diweddaraf ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol sydd ar gael ar gyfer y pedair ward yng nghymuned y Canol yw'r rheiny ar gyfer 2013-15 (nid oes data mwy diweddar ar gael ar hyn o bryd).



Roedd y gyfradd derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth ar draws cymuned y Canol yn 2013-15 yn amrywio ar draws pob un o'i phedair ward o 1216.6 ym Mhlgwenlly; 898.5 yn Stow Hill; 468.5 yn Allt-yr-ynn; a 404.0 yn Shaftesbury.

Mae cyfraddau wedi gostwng yn Shaftesbury ers 2006-08 ond maent wedi cynyddu yn Stow Hill, Pilgwenlly ac Allt-yr-ynn.

Yn 2013-15 roedd gan Bilgwenlly, Stow Hill ac Allt-yr-ynn gyfradd uwch na chyfartaledd Casnewydd (443.4) a Chymru (339.6). Er bod gan Shaftesbury gyfradd uwch na Chymru ond yn is na Chasnewydd.

Pa mor ddiogel yw ein cymuned?

MALIC 2019 – Maes Diogelwch Cymunedol

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁴⁰ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Mae'r maes Diogelwch Cymunedol yn mesur amddifadedd sy'n ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel. Mae chwe dangosydd sy'n rhan o'r maes diogelwch cymunedol ac amlinellir y rhain isod. Daw'r rhain o Heddluoedd Cymru (oni nodir yn wahanol) ac maent yn cynnwys:

- Difrod Troseddol wedi'i Gofnodi gan yr Heddlu
- Troseddau Treisgar wedi'u Cofnodi gan yr Heddlu
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi'i Gofnodi gan yr Heddlu
- Byrgleriaeth wedi'i Chofnodi gan yr Heddlu
- Lladrad wedi'i Gofnodi gan yr Heddlu
- Digwyddiadau Tân

Mynegir yr holl ddangosyddion fel cyfraddau, gyda'r rhifiadur yn cynnwys nifer y troseddau / digwyddiadau / achosion o dân fesul AGEHI (ar gyfartaledd dros ddwy flynedd) a'r enwadur yn cynnwys nifer y bobl / cartrefi yn yr AGEHI.

Gwnaed mân newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer datblygu'r rhifiaduron digwyddiadau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer MALIC 2019. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys mabwysiadu'r un dechneg agregu daearyddol a thechneg gyfyngu ag a ddefnyddir ym Maes Troseddu Mynegeion Amddifadedd Lloegr 2019. Mae'r broses sicrhau ansawdd dau gam gyda'r heddluoedd hefyd yn adlewyrchu'r hyn a fabwysiadwyd ym Maes Troseddu Mynegeion Amddifadedd Lloegr 2019.

Bu newidiadau bach hefyd i'r categorïau manwl sy'n ffurfio pob un o'r dangosyddion troseddau wedi'u cofnodi a sut caiff rhai troseddau eu dosbarthu ers cyhoeddi MALIC 2014. Fodd bynnag, gellir ystyried bod y data yn gymharol debyg i'r data a gyhoeddwyd cyn 2019 ar gyfer y maes hwn. I gael rhagor o wybodaeth am newidiadau methodolegol, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019⁴¹.

Safleoedd Diogelwch Cymunedol 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Safleoedd 1-955
Casnewydd	95	35.8	47.4	54.7	75.8
Cymru	1,909	10	20	30	50

⁴⁰ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

⁴¹ [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#)

Mae ACEHI Allt-yr-ynn 2, Allt-yr-ynn 4, Stow Hill 1, Stow Hill 2, Stow Hill 3, Pilgwenlli 1, Pilgwenlli 2, Pilgwenlli 3, Pilgwenlli 4 a Shaftesbury 1 wedi'u rhestru yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol. O gymharu roedd AGEHI Allt-yr-ynn 3 yn y 20% lleiaf difreintiedig; a Shaftesbury 2 a Shaftesbury 4 yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

O ran y maes Diogelwch Cymunedol, mae Stow Hill a Philgwenlli yn rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gyda phob un o'u hardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

	Safleoedd MALIC	Diogelwch Cymunedol
Allt-yr-ynn 1	1819	1146
Allt-yr-ynn 2	187	147
Allt-yr-ynn 3	1761	1529
Allt-yr-ynn 4	838	91
Allt-yr-ynn 5	1657	853
Allt-yr-ynn 6	459	557
Stow Hill 1	339	4
Stow Hill 2	808	54
Stow Hill 3	135	2
Pilgwenlli 1	21	73
